



Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, Pearson a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal arholiadau Gwrando TGAU a TAG Ieithoedd Tramor Modern a Gwyddeleg:

(Chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron, tabledi a digido deunydd gwranddo)

Yn weithredol o 1 Medi 2019

1. Defnyddio chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron a thabledi

1.1 Mae'r cyfarwyddiadau canlynol yn ymwneud â defnyddio chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron a thabledi mewn arholiadau Gwrando TGAU a TAG

(*O.N. Dim ond ar gyfer arholiadau TAG y caniateir chwaraewyr CD ac MP3 unigol gan AQA, CCEA, Pearson a CBAC.)

- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau lofnodi am ddeunyddiau gwranddo a ddarperir ar ffurf CD yn unol â chyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.
- **Rhaid** i'r ganolfan ddarparu chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron a thabledi. Nid yw'n dderbyniol i ymgeiswyr ddarparu eu chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniaduron neu dabled eu hunain.
- Dylid llwytho deunyddiau gwranddo TGAU a/neu TAG i lawr ar chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi canolfannau, naill ai o safle allrwyd diogel y corff dyfarnu (neu o CD). **Ni ddylid gwneud hyn fwy nag un diwrnod gwaith cyn amser dechrau cyhoeddedig yr arholiad.** (Os yw arholiad Gwrando TGAU/TAG Ieithoedd Modern wedi'i amserlennu ar ddydd Llun, bydd y corff dyfarnu'n sicrhau bod y ffeiliau ar gael i'w llwytho i lawr ar y dydd Gwener cyn yr arholiad. Os yw'r arholiad wedi'i amserlennu ar y dydd Llun yn syth ar ôl y gwyliau hanner tymor, bydd y corff dyfarnu'n sicrhau bod y ffeiliau ar gael i'w llwytho i lawr ar y dydd Gwener cyn y gwyliau hanner tymor.)
- Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, argymhellir bod aelod o staff o adran TGCh y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon.
- **Ni all** athrawon pwnc wirio'r chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi ar ôl llwytho'r deunyddiau gwranddo i lawr.

- Deunydd gwranddo arholiad Gwranddo TGAU neu TAG penodol yn unig y gellir ei storio ar y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi. **Ni ddylid storio unrhyw ddeunydd arall.**
- **Rhaid** dychwelyd y deunyddiau cyfrinachol sy'n cael eu cyflenwi gan y corff dyfarnu at ddibenion yr arholiad Gwranddo i gyfleusterau storio diogel y ganolfan cyn gynted ag y bydd y llwytho i lawr wedi'i gwblhau ar bob chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled.
- **Rhaid** dychwelyd pob chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled sydd â deunydd cyfrinachol wedi'i storio arnynt i gyfleusterau storio diogel y ganolfan. **Rhaid** eu storio'n unol â chyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.
Rhaid trin y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron a thabledi fel deunydd arholiad cyfrinachol tan y bydd yr arholiad wedi'i sefyll.
- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau gadw log o'u gweithredoedd bob amser. Yn bennaf:
 - dyddiad llwytho'r deunydd cyfrinachol i lawr i bob un o'r chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi;
 - pa bryd y cafodd y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi â'r deunydd cyfrinachol arnynt eu rhoi yn y storfa ddiogel; a
 - pha bryd y dilëwyd y deunydd gwranddo oddi ar y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi.
- **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod:
 - y chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled o faint addas ac yn gallu cael ei weithredu'n annibynnol;
 - pob chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled yn gweithio'n iawn pan fydd y deunydd gwranddo'n cael ei lwytho i lawr. Cyfrifoldeb y ganolfan yw cyflwr gweithio cyffredinol yr offer. Ni fydd cyrff dyfarnu fel arfer yn ystyried bod nam ar weithrediad y chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled yn ddigon o sail dros wneud cais am ystyriaeth arbennig;
 - o leiaf un chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled sbâr ar gael i ymgeiswyr pan ddefnyddir chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi mewn arholiad Gwranddo.
- **Ni ddylai ymgeiswyr fenthyg chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled gan ymgeisydd arall tra bydd yr arholiad yn mynd rhagddo, am unrhyw reswm.**
Rhaid i'r goruchwyliwr roi chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur neu dabled arall a ddarperir gan y ganolfan i'r ymgeisydd. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth bob amser a **rhaid** caniatáu iddo gael y cyfnod amser llawn a bennir ar gyfer yr arholiad.
- **Ar ôl cwblhau'r arholiad:**
 - **rhaid** tynnu'r ffeiliau gwranddo oddi ar y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi. **Rhaid** clirio ffeiliau oddi ar y chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron neu dabledi cyn cychwyn ar unrhyw gyfres arholiadau yn y dyfodol;
 - gall y ganolfan gadw'r ffeiliau i'w defnyddio'n fewnol gydag ymgeiswyr yn y dyfodol.

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n defnyddio gliniaduron neu dabledi ddefnyddio'r rhyngwrwd ar unrhyw gyfrif. Rhaid analluogi mynediad i'r rhyngwrwd am gyfnod cyfan yr arholiad.

Lle mae adrannau Gwrando, Darllen a/neu Ysgrifennu mewn papur cwestiynau, rhaid i ganolfannau roi lle gwag addas i ymgeiswyr gwblhau pob rhan o'r papur. Ni ddylid symud yr ymgeiswyr i ystafell arall i gwblhau rhannau gwahanol o'r papur.

Rhaid peidio â defnyddio'r addasiad tempo ar chwaraewr MP3. Rhaid chwarae'r recordiad ar y cyflymder gwreiddiol.

2. Digido deunydd gwrando

(Storio deunydd gwrando ar rwydwaith cyfrifiadur y ganolfan)

- 2.1 At bwrpasau digido'r deunydd gwrando ar rwydwaith cyfrifiadur y ganolfan, gall canolfannau gyrchu'r deunydd gwrando cyfrinachol hyd at **1 diwrnod gwaith cyn amser dechrau cyhoeddus yr arholiad**.
Nid oes angen ceisio caniatâd o flaen llaw gan y corff dyfarnu perthnasol.
- 2.2 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, argymhellir bod aelod o staff o adran TGCh y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon. **Rhaid llwytho'r deunydd i lawr i adran ddiogel o rwydwaith y ganolfan, e.e. rhan o'r rwydwaith sydd ar gael i staff TGCh ond ddim ar gael i'r myfyrwyr tan yr amser a ganiateir.**
- 2.3 **Ni all** athrawon pwnc wirio'r deunydd gwrando a lwythwyd i lawr.
- 2.4 Unwaith y bydd y deunydd gwrando wedi'i lwytho i lawr, **ni ddylid** gadael yr ystafell/man arholi heb oruchwyliaeth na heb ei chloi. **Ni** chaniateir mynediad i'r rhyngwrwd, data sydd wedi'u storio ar y gyriant caled nac unrhyw gyfryngau cludadwy fel disgiau hyblyg, CDs neu ffyn cof yn ystod yr arholiad.

Noder: rhaid i chi gyfeirio bob amser at y cyfarwyddiadau pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu perthnasol ar gyfer arholiadau Gwrando TGAU a TAG.